# POLISI ARFERION TROSEDDOL


©Nominet

**CYNNWYS**

1. Cyflwyniad
2. Egwyddorion cyffredinol
3. Mynd i'r afael â gweithgarwch troseddol ar .cymru, .wales a .uk
4. Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith yn y Deyrnas Unedig
5. Terminoleg

 ©Nominet

## 1. CYFLWYNIAD

Nid yw Nominet yn goddef gweithgarwch troseddol yn y defnydd o'n henwau parth (.cymru, .wales, .uk).

Pan fyddwch yn cofrestru enw parth rydych chi'n cytuno i'n Telerau ac Amodau ar gyfer Cofrestru Enw Parth (.uk) a/neu ein Polisi Cofrestru Enw Parth ar gyfer .cymru a .wales, sy'n cynnwys:

- Gofyniad i ddarparu manylion cyswllt cywir a chyfredol
- Addewid i beidio â defnyddio'r enw parth at unrhyw ddiben anghyfreithlon
- Addewid i beidio â thorri hawliau eiddo deallusol
- Gwaharddiad ar enwau parth sy'n hyrwyddo troseddau rhywiol difrifol

Mae ein polisïau ar gael yn nominet.uk/policies

## 2. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r egwyddorion canlynol yn llywio ein dull o fynd i'r afael â gweithgarwch troseddol:

Lles y cyhoedd: Mae cofrestru enw parth yn adnodd cyhoeddus, ac er lles y cyhoedd rhaid bod enwau parth .cymru, .wales a .uk: (a) yn ddiogel i ddefnyddwyr, a (b) yn hygyrch ac yn fforddiadwy i'r mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr cyfreithlon heb ymyrraeth ormodol.

Cydweithredu: Fel y gofrestrfa sy'n rhedeg .cymru, .wales a .uk, nid oes gan Nominet yr arbenigedd i asesu gweithgarwch troseddol honedig. Ategir ein gallu i fynd i'r afael â gweithgarwch troseddol drwy gydweithio ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y Deyrnas Unedig.

Atebolrwydd: Mae gan yr asiantaethau rydyn ni'n cydweithio â nhw bwerau erlyn am y troseddau maen nhw'n ymchwilio iddynt. Maen nhw'n atebol am eu penderfyniadau drwy brosesau gweinyddol cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

Atal niwed a chymesuredd: Nid yw ymyrraeth gan gofrestrfa yn ateb perffaith i ddileu cynnwys oddi ar y we, ond gall amharu ar weithgarwch troseddol i atal niwed. Rydyn ni'n darparu sesiwn sefydlu technegol orfodol i bob asiantaeth er mwyn sicrhau eu bod yn deall canlyniadau a chyfyngiadau ymyrraeth gan gofrestrfa ac yn gallu asesu cymesuredd.

Alinio â chyfraith y Deyrnas Unedig: Dylai'r enwau parth .cymru, .wales a .uk adlewyrchu'r ymddygiad disgwyliedig fel y'i diffinnir gan gyfreithiau'r Deyrnas Unedig. Mae gweithgarwch troseddol yr un mor annerbyniol ar-lein ag oddi ar-lein.

## 3. MYND I'R AFAEL Â GWEITHGARWCH TROSEDDOL AR .CYMRU, .WALES A .UK

### Ardystio

Os bydd Nominet yn derbyn ardystiad ysgrifenedig swyddogol gan un o asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y Deyrnas Unedig a restrir yn adran 4 sy'n datgan bod enw parth .cymru, .wales neu .uk yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch troseddol, bydd Nominet yn gosod statws arbennig ar y parth ar ôl cwblhau'r gwiriadau gweinyddol a'r cyfnod rhybudd yn llwyddiannus, oni bai bod camau boddhaol wedi'u cymryd (er enghraifft, drwy weithredu polisi cyfochrog). Mae statws arbennig yn cynnwys atal yr enw parth neu ailgyfeirio'r enw parth i dudalen gwybodaeth/cymorth.

 ©Nominet

### Rhybudd

Cyn gosod statws arbennig ar yr enw parth, byddwn yn rhoi o leiaf 48 awr o rybudd i'r cofrestrai. Os oes tystiolaeth sylweddol o niwed uniongyrchol i'r cyhoedd, caiff Nominet atal yr enw parth ar unwaith. Mae'r eithriadau hyn yn brin iawn ac mae angen i uwch reolwyr gymeradwyo camau o'r fath.

Bydd y rhybudd i'r cofrestrai'n cynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaeth gorfodi'r gyfraith berthnasol sy'n gwneud yr asesiad o weithgarwch troseddol. Os yw'r cofrestrai'n anghytuno ag asesiad yr asiantaeth, gall gysylltu â'r asiantaeth i wneud cwyn.

Os bydd yr asiantaeth berthnasol yn cadarnhau i Nominet nad yw'r enw parth yn cael ei ddefnyddio mwyach ar gyfer gweithgarwch troseddol, bydd Nominet yn atal y broses o osod statws arbennig ar yr enw parth.

### Hyd

Pan osodir statws arbennig ar enw parth, bydd yn aros o dan statws arbennig am: (a) yn achos enwau .uk, isafswm o 24 mis, (b) yn achos enwau .cymru/.wales, nes iddynt ddod i ben. Ar ddiwedd cyfnod y statws arbennig, bydd yr enw parth yn cael ei ganslo a bydd ar gael i'w ail-gofrestru.

### Adrodd

Mae Nominet yn adrodd yn flynyddol ar ein gwaith i fynd i'r afael â gweithgarwch troseddol ar enwau parth .uk.

### Cwynion

Os ydych yn anghytuno â'r asesiad bod enw parth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch troseddol, dylech gysylltu â'r asiantaeth a wnaeth yr ardystiad yn y lle cyntaf. Mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y Deyrnas Unedig yn atebol am eu penderfyniadau drwy brosesau gweinyddol cyhoeddus. Os ydych yn anghytuno â'u hasesiad, gallwch ddefnyddio'r dulliau cwyno ac apelio perthnasol ar gyfer yr asiantaeth dan sylw. Er enghraifft, yr ombwdsmon perthnasol ar gyfer y sector, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, neu broses adolygu barnwrol.

Os ydych yn anghytuno â'r modd mae Nominet wedi rhoi'r polisi yma ar waith, dilynwch ein gweithdrefn gwyno: nominet.uk/complaints

## 4. ASIANTAETHAU GORFODI'R GYFRAITH YN Y DEYRNAS UNEDIG

| Asiantaeth | Gwybodaeth | Enghraifft o weithgarwch troseddol ar-lein | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|---|
| **Uned Atgyfeirio Gwrthderfysgaeth ar y Rhyngrwyd** | Uned o fewn yr Heddlu Metropolitanaidd yw Uned Atgyfeirio Gwrthderfysgaeth ar y Rhyngrwyd. | Gwybodaeth a phropaganda terfysgol. | www.counterterrorism.police.uk |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Asiantaeth yr Amgylchedd** | Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gorff cyhoeddus anadrannol, a sefydlwyd yn 1996 i ddiogelu a gwella'r amgylchedd. | Gweithredu gwasanaethau rheoli gwastraff a gwaredu gwastraff peryglus yn anghyfreithlon. | Polisi gorfodi a chosbi Asiantaeth yr Amgylchedd<br>www.gov.uk/environment-agency |
| **Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol** | Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yw'r rheoleiddiwr ymddygiad ar gyfer cwmnïau gwasanaethau ariannol a marchnadoedd ariannol yn y Deyrnas Unedig. | Cyflawni gweithgareddau a reoleiddir heb awdurdodiad. Darparu gwybodaeth gamarweiniol a honni'n ffug bod awdurdodiad. | Cenhadaeth yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol: Ein Dull o Orfodi<br>www.fca.org.uk |
| **Comisiwn Hapchwarae** | Y Comisiwn Hapchwarae yw'r rheoleiddiwr ar gyfer hapchwarae yng ngwledydd Prydain. | Gweithredu gwefannau gamblo anghyfreithlon a heb drwydded. | www.gamblingcommission.gov.uk |
| **Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd** | Mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yn rheoleiddio meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a chydrannau gwaed ar gyfer trallwysiad gwaed yn y Deyrnas Unedig. | Gwerthu meddyginiaeth ddi-drwydded neu ffug ar gyfer defnydd dynol. | Dyfeisiau meddygol: y rheoliadau a sut rydyn ni'n eu gorfodi<br>www.mhra.gov.uk<br>fakemeds.campaign.gov.uk |
| **Heddlu Metropolitanaidd – Uned Troseddau Arbenigol Canolog** | Uned o fewn yr Heddlu Metropolitanaidd yw'r Uned Troseddau Arbenigol Canolog. | Twyll ar-lein a seiber-droseddu, gan gynnwys dwyn hunaniaeth a thrafodion ar-lein. | www.met.police.uk |
| **Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn** | Mae Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn heddlu sifil statudol. Maen nhw'n darparu gwasanaethau plismona gweithredol gan ddefnyddio amrywiaeth o alluoedd plismona arbenigol. | Atal, canfod, tarfu ac ymchwilio i droseddau yn erbyn buddiannau ac asedau Amddiffyn. Mae hyn yn cynnwys meysydd trosedd fel Llwgrwobrwyo, Twyll, Llygredigaeth a lladrata, a siopau sy'n gwerthu cynnyrch sy'n Ddeniadol i Sefydliadau Troseddol a Therfysgol. | Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn: cynllun plismona 2019 i 2020<br>www.mod.police.uk |
| **Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol** | Adran weithredol anweinidogol ac annibynnol ar y llywodraeth yw'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. | Troseddu cyfundrefnol a difrifol. | Cynllun Blynyddol yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol 2020/21<br>www.nationalcrimeagency.gov.uk |
| **Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd** | Un o swyddogaethau gorfodi'r gyfraith yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. | Camliwio bwyd drwy farchnata cynnyrch i bortreadu ei ansawdd neu ei ddiogelwch yn anghywir. | Deall troseddau bwyd a sut i adrodd amdanynt<br>www.food.gov.uk |


©Nominet

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Biwro Cudd-wybodaeth Twyll Cenedlaethol** | Mae'r Biwro Cudd-wybodaeth Twyll Cenedlaethol yn eistedd ochr yn ochr ag Action Fraud yn Heddlu Dinas Llundain, sef y prif gorff plismona ar gyfer troseddau economaidd. | Gweithgarwch twyllodrus gan fusnesau sy'n gweithredu ar-lein. | www.actionfraud.police.uk |
| **Y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom)** | Y rheoleiddiwr a'r awdurdod cystadleuaeth ar gyfer diwydiannau cyfathrebu'r Deyrnas Unedig yw'r Swyddfa Gyfathrebiadau. | Troseddau sy'n ymwneud ag ymyrraeth sbectrwm, gan gynnwys gwerthu cynhyrchion RE ac EMC anghyfreithlon a rhai nad ydynt yn cydymffurfio. | Gorfodaeth Sbectrwm<br>www.ofcom.org.uk |
| **Y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch** | Y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch yw'r rheoleiddiwr cenedlaethol ar gyfer holl gynhyrchion defnyddwyr (ac eithrio cerbydau, meddyginiaethau a bwyd) ac offer pwyso/mesur. | Darparu cynnyrch peryglus i ddefnyddwyr nad ydynt yn cwrdd â gofynion diogelwch hanfodol ac yn peri risg i ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys defnyddwyr sy'n agored i niwed, fel plant. | Y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch<br>Rhybuddion am Ddiogelwch Cynnyrch<br>Polisi Gorfodi |
| **Uned Troseddau Eiddo Deallusol yr Heddlu** | Adran o Heddlu Dinas Llundain, y prif heddlu ar gyfer twyll, yw Uned Troseddau Eiddo Deallusol yr Heddlu. | Troseddu eiddo deallusol cyfundrefnol a difrifol. | Polisi Atal Dros Dro Ymgyrch Ashiko<br>www.cityoflondon.police.uk |
| **Heddlu'r Alban** | Heddlu'r Alban sy'n gyfrifol am blismona ar draws yr Alban gyfan. | Twyll a throseddu cyfundrefnol. | https://www.scotland.police.uk/ |
| **Safonau Masnach** | Awdurdodau llywodraeth leol yw Safonau Masnach sy'n ymchwilio i fasnachu annheg a gweithgarwch busnes anghyfreithlon. | Arferion masnachu anghyfreithlon ar-lein. | www.gov.uk/find-local-trading-standards-office |
| **Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol** | Nod y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol, sy'n asiantaeth weithredol i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yw diogelu iechyd anifeiliaid, iechyd y cyhoedd, a'r amgylchedd drwy sicrhau diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd meddyginiaethau milfeddygol. | Gwerthu meddyginiaeth anawdurdodedig ar gyfer trin anifeiliaid. | Strategaeth orfodi ar gyfer meddyginiaethau anifeiliaid<br>www.gov.uk/vmd |

 ©Nominet

## 5. TERMINOLEG

Yr enw ar y rheolwr a'r gweithredwr technegol ar gyfer enwau parth lefel uchaf (TLD) yw cofrestrfa enw parth. Nominet yw cofrestrfa enw parth .cymru, .wales a .uk, a ni sy'n cadw'r gronfa ddata o enwau parth – y gofrestr.

Pan fydd aelod o'r cyhoedd yn cofrestru enw parth, maen nhw'n gwneud hynny drwy gofrestrydd – sefydliad neu unigolyn sy'n gwerthu enwau parth i'r cyhoedd. Maen nhw'n ymrwymo i gontract i gofrestru'r enw parth am gyfnod penodol o amser ac yn dod yn gofrestrai ar yr enw parth. Bydd y cofrestrydd yn gweithredu ar ran y cofrestrai ac yn cyfarwyddo'r gofrestrfa i wneud newidiadau i'r gofrestr. Fel arfer, bydd cofrestryddion yn darparu gwasanaethau cysylltiedig hefyd e.e. cynnal neu ddylunio gwefannau.

Mae statws arbennig yn cynnwys atal yr enw parth neu ailgyfeirio'r enw parth i dudalen gwybodaeth/cymorth. Nid yw atal ac ailgyfeirio yn dileu'r cynnwys ond maent yn tarfu ar fynediad i'r cyfeiriad. Yn y ddau achos, gall cynnwys gwreiddiol y wefan roedd yr enw parth yn pwyntio ato barhau i fod ar y cyfrifiadur lle mae'n cael ei gynnal, ac felly mae'n hygyrch drwy ddulliau eraill.

Trosedd fel y'i diffinnir gan gyfreithiau'r Deyrnas Unedig yw gweithgarwch troseddol.

| Fersiwn | Disgrifiad | Manylion |
|---|---|---|
| 02.07.2020 | Cyhoeddwyd y fersiwn cyntaf. | |
| 01.12.2020 | Dim newidiadau ôl-ddilynol. Diweddarwyd enw uned yn un o asiantaethau gorfodi'r gyfraith i adlewyrchu'r strwythur sefydliadol presennol. | Diweddarwyd enw Heddlu Metropolitanaidd – Twyll a Throseddau Cysylltiedig Ar-lein i Heddlu Metropolitanaidd – Uned Troseddau Arbenigol Canolog. |
| 26.11.2021 | Asiantaeth gorfodi'r gyfraith newydd. | Y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch |
| 06.07.2026 | Asiantaeth gorfodi'r gyfraith newydd. | Comisiwn Hapchwarae |

 ©Nominet